

Fframwaith Hyfforddiant Diogelu

Bydd cydgysylltu cyfleoedd dysgu'n lleol yn cynnwys ystod eang o ddulliau darparu y tu allan i leoliad 'ystafell ddosbarth' yn cynnwys gweithgareddau fel podlediadau, gweithdai, cylchlythyrau ac e-ddysgu. Mae cyfeiriad at 'hyfforddiant' yn y ddogfen hon felly'n cynnwys amrywiaeth o weithgareddau wedi'u cynllunio i ddatblygu sgiliau, gwybodaeth, agweddau ac ymarfer cyfranogwyr ym maes diogelu.

Bydd darpariaeth hyfforddiant yn cofleidio egwyddorion deialog ac ymgysylltu mewn lle y gall pobl ymddiried ynddo. Bwriad y dull hwn yw effeithio ar werthoedd ac ymddygiadau'r cyfranogwyr fel y gallant ddylanwadu a chyflawni canlyniadau diogelu da.

Llwybrau hyfforddi diogelu

Mae gan yr Eglwys yng Nghymru elfennau craidd dysgu am ddiogelu a gynlluniwyd i ddatblygu dysgu yn ôl rôl a chyfrifoldebau. Mae modiwlau dysgu ychwanegol sydd wedi'u datblygu i wella gwybodaeth ddiogelu am feysydd pwnc penodol, neu ar gyfer rolau penodol.

Mae'r fframwaith hwn yn amlinellu'r manylion modiwlaid ac yn esbonio pwy sydd angen pa hyfforddiant ar y lefel briodol. Mae hefyd yn nodi'r canlyniadau hyfforddi ar gyfer pob modiwl. Mae disgwyl i bobl gyflawni'r lefel ofynnol o ddysgu cyn gynted ag y mae hynny'n ymarferol ar ôl cais i gychwyn mewn swydd, ac ymhob achos o fewn uchafswm o dri mis o gael eu penodi.

Mae hyfforddiant gloywi'n cael ei ddarparu a dylid ei gwblhau bob tair blynedd. Bydd Tîm Diogelu'r Dalaith yn cysylltu â'r cyfranogwyr pan fydd angen hyfforddiant gloywi arnynt. Mae'n rhaid cwblhau hyfforddiant ar y lefel briodol hefyd pan fydd unigolyn yn ymgymryd â rôl newydd.

Hyfforddwyr profiadol a medrus Tîm Diogelu'r Dalaith sy'n darparu'r hyfforddiant diogelu.

Llwybrau Dysgu Craidd

Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu

Darpariaeth	Ar-lein (gyda threfniadau wrth gefn ar gyfer hyfforddiant wyneb yn wyneb pan na ellir cwblhau hyfforddiant ar-lein am resymau derbyniol)
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none">- Gallu esbonio'r term Diogelu- Gallu adnabod arwyddion a dangosyddion camdriniaeth- Deall diogelu mewn cyd-destun eglwys- Dangos dealltwriaeth sylfaenol o ddeddfau sy'n ymwneud â diogelu- Cydnabod eich cyfrifoldebau i adrodd camdriniaeth a gwybod pa gamau gweithredu i'w cymryd os ydych chi'n gweld camdriniaeth neu fod rhywun yn dweud wrthyich chi am gamdriniaeth- Deall ffiniau cyfrinachedd
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none">- Holl swyddogion yr eglwys, yn cynnwys Cadeiryddion ac aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth- Pob cleric

	<ul style="list-style-type: none"> - Pawb sydd angen cwblhau cyrsiau hyfforddiant diogelu pellach *mae'r cwrs hwn ar gael i bawb er mwyn iddynt gyflawni dealltwriaeth lefel sylfaen o ddiogelu
Dull hyfforddi	Ar-lein

Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Deall beth yw diogelu da -Nodi'r llywodraethu sy'n gysylltiedig â diogelu -Deall atebolrwydd unigolion -Deall cyfrifoldeb diogelu ar lefel eglwys -Deall y broses adrodd -Deall y cyd-destun diogelu ehangach 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Pob clerig -Unrhyw un mewn rôl sy'n golygu gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl -Wardeiniaid eglwysi -Darllenwyr trwyddedig -Ficeriaid -Cadeiryddion ac aelodau Cyngorau Ardaloedd Gweinidogaeth -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Cyfarwyddwyr Cerdd Plwyfi / Ardaloedd Gweinidogaeth 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> <ul style="list-style-type: none"> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn 	<u>Wyneb yn Wyneb</u> <ul style="list-style-type: none"> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl C – Diogelu ac Arweinyddiaeth

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Deall arferion a chanllawiau diogelu -Cydabod sut i ofalu'n fugeiliol am ddiodefwrwr a goroeswyr camdriniaeth -Gall gynghori eraill ar y broses i atgyfeirio pryderon diogelu -Cyfrannu'n briodol at reoli risg -Ystyried beth yw cymunedau eglwys iach -Ystyried ymddygiadau diogelu da a'u heffaith 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Cadeiryddion ac aelodau Cyngorau Ardaloedd Gweinidogaeth 	

	Efallai y bydd cyd-destun lleol lle byddai'n briodol i unigolion eraill fynychu – pobl sy'n dylanwadu'n fawr ar arweinyddiaeth – er enghraifft, gweinidogion â chyfrifoldebau penodol neu wardeiniaid eglwysi; arweinwyr a benodwyd yn lleol ac ati	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl D – Diogelu ar gyfer Uwch Arweinwyr

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Rhoi mwy o ystyriaeth i sut olwg sydd ar gymunedau eglwys iach -Myfyrio ar sut y gellir atal ac adfer y diwylliant iach hwnnw -Datblygu dealltwriaeth fanylach o natur niwed a chamdriniaeth a'u heffaith ar gymunedau eglwys -Dangos gwerthoedd cryfach mewn perthynas â diogelu -Myfyrio ar eich arweinyddiaeth eich hun a'ch ymatebion i ddiogelu -Trosi'r hyn a ddysgwyd yn ymddygiadau arwain newydd sy'n helpu i sicrhau canlyniadau diogelu ac sy'n dangos bod diogelu wrth galon yr eglwys 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Yr Archesgob -Esgobion Esgobaethau -Ysgrifenyddion y Dalaith -Cwmselwyr Cyffredinol -Archddiaconiaid -Deoniaid -Caplaniaid Esgobion -Ysgrifenyddion Esgobaethau -Cyfarwyddwyr Gweinidogaeth -Cyfarwyddwyr Cerdd (Cadeirlannau) -Prifathro Athrofa Padarn Sant 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl E – Diogelu ar gyfer Caniatâd i Weinyddu

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	-Deall sut mae diogelu da yn edrych	

	-Nodi'r llywodraethu sy'n gysylltiedig â diogelu -Deall atebolrwydd unigolion -Deall y broses adrodd -Disgrifio sut i ymateb i bryderon diogelu -Deall cymhlethdodau diogelu mewn cyd-destun eglwys	
Pwy ddylai gymryd rhan	Y rhai sydd wedi cael Caniatâd i Weinyddu gan Esgob esgobaeth. (DS – gall cyfranogwyr fynychu hyfforddiant Modiwl B yn lle mynychu Modiwl E)	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl F – Deall rôl Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	-Deall cyfrifoldebau rôl Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Deall strwythurau adrodd ar ddiogelu o fewn yr Eglwys yng Nghymru -Deall arferion gorau a hyrwyddo cydymffurfiaeth	
Pwy ddylai gymryd rhan	Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl G – Cytundebau diogelu

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	-Deall arferion da -Deall cymhlethdodau contractau diogelu -Deall cyfyngiadau cyfrinachedd -Deall arferion gorau mewn perthynas â rheoli risg -Deall rôl tîm diogelu'r dalaith yn y broses hon	
Pwy ddylai gymryd rhan	-Clerigion -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Wardeiniaid Eglwysi	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl H – Recriwtio Mwy Diogel

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelwch + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Deall arferion a phrosesau recriwtio da fel y broses ddethol a chyfweld -Deall arferion gorau o ran rheoli pobl yn barhaus -Ymdrin â phryderon a nodwyd drwy'r broses fetio 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Rheolwyr llinell a'r rhai sy'n ymwneud â recriwtio swyddogion eglwys -Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth -Clerigion lle bo'n berthnasol -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Mae modiwlau'r Llwybr Craidd yn bodoli i ddarparu'r dysgu hanfodol sydd ei angen i allu adnabod, ymateb, cofnodi a chyfeirio pryderon diogelu yn ogystal ag ymwreiddio methodoleg eglwys ddiogel mewn gweithgareddau bob dydd. Mae'r modiwlau arweinyddiaeth yn arbennig wedi'u teilwra i ymwreiddio arferion diogelu ar lefel Ardal Weinidogaeth a thu hwnt gan archwilio natur agored i niwed clerigion wrth weithredu gweithdrefnau ac ymateb i bryderon a sefyllfaoedd difrifol.

Llwybrau Dysgu seiliedig ar Broblemau

Modiwl I – Cam-drin Domestig - ymwybyddiaeth

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Deall cam-drin domestig – mathau o gam-drin domestig a phwy sydd mewn perygl -Archwilio rhwystrau ac effaith cam-drin domestig -Nodi camau diogelu i warchod dioddefwyr a'r rhai sydd mewn perygl gan ar yr un pryd archwilio cyfyngiadau eich rôl -Deall effaith cam-drin domestig ar ddioddefwyr 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Clerigion -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Wardeiniaid eglwysi -Ymwelwyr bugeiliol -Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl J – Gofal bugeiliol a chefnogi goroeswyr

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Deall arferion da -Deall cyfyngiadau cyfrinachedd -Cymhwyso sgiliau gwranddo mewn sgysiau bugeiliol -Deall sut i ymateb i oroeswyr camdriniaeth a'r rhwystrau maen nhw'n eu hwynebu 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Clerigion -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Ymwelwyr bugeiliol -Wardeniaid eglwys -Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Modiwl K - Caethwasiaeth fodern a cham-fanteisio

Rhagofyniad	Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu + Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	
Darpariaeth	Ar-lein neu wyneb yn wyneb	
Canlyniadau	<ul style="list-style-type: none"> -Datblygu ymwybyddiaeth o arwyddion cam-fanteisio -Deall y diffiniad a beth mae'n ei olygu mewn gwirionedd -Deall y rhwystrau sy'n atal dioddefwyr rhag ymddiried mewn pobl sydd mewn awdurdod -Dangos ymwybyddiaeth o beth sy'n gwneud unigolion yn agored i gam-fanteisio 	
Pwy ddylai gymryd rhan	<ul style="list-style-type: none"> -Clerigion -Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth -Ymwelwyr bugeiliol -Wardeniaid eglwysi 	
Dull hyfforddi	<u>Ar-lein</u> -Cwblhau ar zoom mewn un sesiwn	<u>Wyneb yn Wyneb</u> -Un sesiwn -Uchafswm grŵp o 30

Pwy ddylai gwblhau llwybrau dysgu craidd?

Modiwl A – Ymwybyddiaeth o Ddiogelu	Holl swyddogion yr Eglwys Pob clerig Pawb sydd angen cwblhau cyrsiau hyfforddi diogelu pellach neu gael ymwybyddiaeth gyffredinol o ddiogelu
Modiwl B – Deall Diogelu yn yr Eglwys	Pob clerig Unrhyw un mewn rôl sy'n cynnwys gweithio gyda phlant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl Wardeiniaid eglwysi Darllenwyr trwyddedig Ficeriaid

	Cyfarwyddwyr Cerdd (Plwyfi ac Ardaloedd Gweinidogaeth) Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth
Modiwl C – Diogelu ac Arweinyddiaeth	Arweinwyr Ardaloedd Gweinidogaeth Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth *efallai y bydd cyd-destun lleol lle byddai'n briodol i unigolion eraill fynychu – pobl sy'n dylanwadu'n fawr ar arweinyddiaeth – er enghraifft, gweinidogion â chyfrifoldebau penodol neu wardeiniaid eglwysi; arweinwyr a benodwyd yn lleol ac ati
Modiwl D – Diogelu ar gyfer Uwch Arweinwyr	-Yr Archesgob -Esgobion Esgobaethau -Prif Ysgrifennydd -Cwmselwyr Cyffredinol -Archddiaconiaid -Deoniaid -Caplaniaid Esgobion -Ysgrifenyddion Esgobaethau -Cyfarwyddwyr Gweinidogaeth -Cyfarwyddwyr Cerdd (Cadeirlannau) -Prifathro Athrofa Padarn Sant
Modiwl E – Diogelu ar gyfer Caniatâd i Weinyddu	Y rhai sydd wedi cael Caniatâd i Weinyddu gan Esgob yr esgobaeth
Modiwl F – Deall rôl Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth	Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth
Modiwl G – Trefniadau Diogelu	Clerigion Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth Wardeiniaid Eglwysi
Modiwl H – Recriwtio mwy Diogel	Rheolwyr llinell a'r rhai sy'n gysylltiedig â recriwtio swyddogion eglwys Aelodau Cynghorau Ardaloedd Gweinidogaeth Clerigion lle bo'n berthnasol Swyddogion Diogelu Ardaloedd Gweinidogaeth

Gweithdai Diogelu mewn Esgobaethau

Y tu allan i'r "ystafell ddosbarth", byddwn yn darparu cyfleoedd dysgu pellach drwy weithdai ar lefel esgobaeth. Bydd y rhain yn canolbwyntio ar faterion diogelu cyffredinol ac yn gyfle i edrych yn fanwl ar unrhyw faterion diogelu ailadroddus ar lefel esgobaeth. Byddwn hefyd yn gweithio gydag asiantaethau statudol ac anstatudol allanol i drefnu neu gomisiynu gweithdai mewn ymateb i ddatblygiadau diogelu lle bo'n briodol.

Monitro presenoldeb

Bydd tîm diogelu'r dalaith yn ceisio cael sicrwydd ynghylch presenoldeb a chydymffurfiaeth â gofynion hyfforddi a byddant yn gweithio gydag esgobaethau i gyflawni hyn. Bydd presenoldeb mewn hyfforddiant diogelu'n cael ei gofnodi'n gyson a chywir yng nghronfa ddata ganolog hyfforddiant diogelu 'Pobl Fy Eglwys' i sicrhau bod gan yr holl fynychwyr gofnod dysgu. Bydd cofnodion o'r fath yn ein galluogi i nodi sesiynau gloywi ac yn hwyluso monitro a sicrwydd dysgu am ddiogelu ymhellach. Bydd manylion presenoldeb mewn hyfforddiant ar gael i bob esgobaeth ac yn cael eu defnyddio i lywio'r prosesau adrodd a sicrwydd.

Cwblhau'n llwyddiannus

Er nad oes gan ein cyrsiau asesiad, bydd gofyn i unigolion ddangos dealltwriaeth yn ystod y sesiynau er mwyn cwblhau'r modiwlau perthnasol yn llwyddiannus. Yr hyfforddwr fydd yn penderfynu sut. Ar ôl cwblhau'r cwrs bydd tystysgrif yn cael ei hanfon at y cyfranogwr. Bydd cyfranogwyr yn dangos eu sgiliau a'u gwybodaeth diweddaraf yn eu gwaith bob dydd.

Os bydd cyfranogwyr yn gwrthod ymgysylltu neu os byddant yn fwriadol anodd neu'n tarfu, bydd yr hyfforddwr yn gyfrifol am sicrhau na fydd yr ymddygiad hwn yn cael ei dderbyn. Bydd yr hyfforddwr yn cael gair preifat ag unrhyw sy'n methu â chymryd rhan neu ymgysylltu i weld a oes rhesymau am hyn. Pan nad oes rhesymau y gellir eu cyfiawnhau, mae'n bosib y bydd angen adrodd am ddiffyg cyfranogiad i'r person priodol, fel esgob yr esgobaeth yn achos clerigion, neu reolwr llinell yn achos gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr. Ni fydd unigolion sydd heb gymryd rhan neu sydd wedi methu ag ymgysylltu â'r dysgu am ddiogelu yn derbyn tystysgrif cwblhau.